# PWYLLGOR YMGYNGHOROL HARBWR PORTHMADOG, 10 HYDREF, 2012

**YN BRESENNOL:**

Y Cynghorydd Alwyn Gruffydd, (Cadeirydd)

Y Cynghorydd Jason Humphreys, (Cyngor Gwynedd), ynghyd â'r Mri Gwyn Davies (Cyngor Tref Porthmadog), Dr John Morris (Cynrychiolydd Buddiannau Hamdden), a Peter Lunt Williams (Sefydliad y Bad Achub),

**HEFYD YN BRESENNOL:** Barry Davies (Swyddog Morwrol a Pharciau Gwledig), David O'Neill (Harbwr Feistr) ac Ioan Hughes, (Swyddog Cefnogi Aelodau a Chraffu).

**YMDDIHEURIADAU:** Y Cynghorydd Selwyn Griffiths, (Cyngor Gwynedd) a Robert Owen, (Buddiannau Masnachol).

## 1. CADEIRYDD

**PENDERFYNWYD ethol y Cynghorydd Alwyn Gruffydd yn Gadeirydd Pwyllgor Harbwr Porthmadog am 2012/13**

## 2. IS-GADEIRYDD

**PENDERFYNWYD ethol y Cynghorydd Selwyn Griffiths yn Is-gadeirydd Pwyllgor Harbwr Porthmadog am y flwyddyn 2012/13**

## 3. DATGAN BUDDIANT PERSONOL

Ni dderbyniwyd datganiad o fuddiant personol gan unrhyw aelod oedd yn bresennol.

## 4. COFNODION

Llofnododd y Cadeirydd gofnodion cyfarfod y Pwyllgor hwn a gynhaliwyd ar 7 Mawrth, 2012, fel rhai cywir.

## 5 MATERION YN CODI O'R COFNODION

a) Adroddwyd gan y Swyddog Morwrol a Pharciau Gwledig ei fod heb ddatrys y sefyllfa ynglyn a defnydd a fu wedi ei adael ger y bont rhwng yr harbwr a Llyn Bach. Ychwanegwyd bod y deunydd yn effeithio ar yr angorfeydd a bod mwd yn casglu gyda llif yr afon o achos y sefyllfa. Cadarnhaodd y Swyddog fod y mater yn parhau i gael sylw.

## 6. ETHOL SYLWEDYDDION

**PENDERFYNWYD ethol Dr. J. Jones Morris i gynrychioli Pwyllgor Ymgynghorol Harbwr Porthmadog, fel sylwedydd, ar Bwyllgorau Ymgynghorol Harbwr Aberdyfi, Harbwr Abermaw a Harbwr Pwllheli.**

## 7. ADRODDIAD Y GWASANAETH MORWROL

***Mordwyo ac Angorfeydd***

i) Cyfeiriodd y Swyddog Morwrol a Pharciau Gwledig at Gôd Diogelwch Harbyrau a gyhoeddwyd yn 2002. Amlinellodd y prif bwyntiau a geir ynddo ac esboniodd y bydd y Côd yn cael ei adolygu yn y dyfodol agos.
Ychwanegodd fod bwriad i anfon copi o'r Côd Diogelwch ar ei ffurf bresennol i'r aelodau cyn Gwyl y Nadolig. Yna caiff y Côd diwygiedig ei gyflwyno i'r Pwyllgor hwn yn y cyfarfod ar 6 Mawrth, 2013. Yn dilyn hyn caiff ei adolygu bob tair blynedd.

ii) Dosbarthwyd copi o Orchymyn Harbwr Porthmadog i'r aelodau. Nodwyd mai hwn yw unig Bwyllgor Harbwr Statudol Cyngor Gwynedd, ac fe adroddwyd y byddai modd ystyried cyfansoddiad tebyg ar gfyer holl Pwyllgorau harbyrau Aberdyfi; Abermaw a Phwllheli.

iii) Nodwyd bod gwaith a wnaed wedi sicrhau gwelliant sylweddol yn safon y cymhorthion mordwyo a bod hyn wedi ei adlewyrchu yn archwiliadau Tŷ'r Drindod. 'Roedd yr Adran yn ymwybodol o'r gwelliannau a awgrymwyd yn sgil yr archwiliadau a chadarnhawyd bod y gwaith wedi ei gwblhau. Yn ogystal dechreuwyd ar y gwaith o adeiladu bwiau yn hytrach na dilyn y drefn o'u prynu.
Galwyd am adborth gan y morwyr mewn perthynas â nifer cymhorthion mordwyo a'u safleoedd.

iv) Esboniwyd bod bwiau parth traethau yn cael eu gosod er mwyn gwahanu rhai sy'n ymdrochi a'r cychod sydd gyda phropellerau a bod defnydd llawn yn cael ei wneud ohonynt yn Morfa Bychan.
Ychwanegwyd bod y peryglon sy'n bodoli wedi eu tanlinellu pan anafwyd bachgen ifanc yn harbwr Porthmadog yn ystod yr haf. Cyfeiriwyd at y modd effeithiol y bu i'r gwasanaethau brys a swyddogion yr Adran Forwrol ymateb i'r digwyddiad.
Cadarnhawyd bod yr Adran wedi adrodd i'r *'Marine Accident Investigation Branch'.*
Dymunwyd adferiad buan i'r bachgen a anafwyd.

v) Mae tua £4,000 wedi ei neilltuo ar gyfer cynnal a chadw angorfeydd a chadarnhawyd y caiff gwaith ei wneud yn ystod misoedd y gaeaf fe bo holl angorfeydd wedi eu cynal cyn Gwyl Y Pasg 2013. Yn sgil gwaith a wnaed yn gyson mae'r cadwyni mewn cyflwr da.

***Ystadegau Morwrol***

i) Nodwyd bod cyfanswm y cychod ar angorfeydd yn Harbwr Porthmadog wedi gostwng i 164, o'i gymharu â 173 yn 2011. Ychwanegwyd bod gostyngiad i'w weld mewn harbyrau eraill hefyd ac ym Marina Pwllheli.
Ychwanegwyd bod hyn yn adlewyrchu sefyllfa economaidd sydd yn y diwydiant morwrol ar hyn o bryd. Nodwyd ymhellach fod yna or-gapasiti mewn harbyrau a marinas ar draws Prydain a bod effaith y tywydd anffafriol gydol yr haf hefyd yn amlwg..

***Cyllidebau***

i) Nodwyd bod cyllid o £39,780 ar gyfer costau gweithwyr a bod arbediad o £6,712 wedi ei sicrhau.

ii) O safbwynt adeiladau, 'roedd cyllid o £20,550, a gwnaed arbediad o £16,136. Fodd bynnag, eglurwyd bod £12,000 o'r swm yma wedi ei drosglwyddo o bennawd arall dros dro ond bod ymdrechion yn cael eu gwneud i gadw'r arian ym Mhorthmadog.

iii) Cyfeiriodd y Swyddog yn benodol at gyfanswm y gwariant o £70,960 yn Harbwr Porthmadog a bod hyn yn dangos arbediad o £27,373, Nododd bod rhedeg harbwr gyda chymlethdodau ond o’r safon yr hyn a geir ym Mhorthmadog o fewn ffiniau cyllidol mor gyfyng yn effeithiol iawn.

iv) Gosodwyd targed incwm o £75,460 ar gyfer yr harbwr, ac er bod yr incwm £4,500 yn fyr o’r targed gwelwyd cyfanswm arbedion o £22,000. Golyga hyn fod yr harbwr yn cael ei reoli yn effeithiol. Nododd aelodau eu gwerthfawrogiad am y gwaith effeithiol yma.

v) Mewn ymateb i ymholiad pellach parthed yr arbediad o £27,000, nododd y swyddog nad oes llwyddiant o’r fath i’w weld mewn mannau eraill. Ychwanegodd fod effeithlonrwydd y staff ym Mhorthmadog yn ei gwneud yn bosib i arbedion gael eu gwneud er mwyn helpu mannau eraill.
Tynnodd sylw at y ffaith fod y targed incwm yr Adran, ar wahân i Barciau Gwledig, ar gyfer y flwyddyn nesaf yn £2.6miliwn a bod hyn yn heriol iawn yn sgil yr hinsawdd economaidd fregus rydym ynddo.

vi) Eleni gosodwyd targed incwm o £215,370 ar gyfer y traethau, a nodwyd mai £150,611 a gasglwyd a bod hyn yn golygu bwlch o yn agos i £65,000. Pwysleisiwyd bod hyn yn enghraifft arall o effaith y tywydd anffafriol.

vii) O safbwynt ffioedd a thaliadau'r flwyddyn nesaf, nodwyd y bydd argymhelliad yn cael ei wneud i’w rhewi neu godi 1% ar un elfen ohonynt yn unig. Cefnogwyd hyn gan yr aelodau.

viii) Croesawyd gwybodaeth ynglŷn â maes parcio’r harbwr a sicrhaodd oddeutu £6,000 o elw a chaiff yr arian ei gynnwys yng nghyllideb yr harbwr.

***Gwelliannau***

i) Nodwyd bod gwaith sylweddol, oedd yn cynnwys tacluso cyffredinol, wedi ei gwblhau ym Morth y Gest.

ii) Ym Mhorthmadog, nodwyd mai’r angen pennaf yw cadw’r safon a osodwyd. Yn ogystal, bwriedir ymestyn ardal storio cychod gweini ger y llithrfa gyhoeddus.

ii) Mewn ymateb i’r son a fu ynglŷn â llongau’n dod i Borthmadog mewn perthynas â gwaith o gryfhau peilonau trydan, nododd y swyddog nad oedd cais ffurfiol wedi ei derbyn ac nad oedd gwybodaeth wedi ei gyflwyno gan unrhyw gontractwr arfaethedig.
‘Roedd aelod yn ymwybodol o gyfarfod a oedd yn cael ei gynnal yng Nghaernarfon i drafod y mater ynghyd ag arddangosfa yng Nghanolfan Hamdden Glaslyn yn ddiweddarach.
Cadarnhawyd y bydd gwybodaeth yn cael ei roi i’r Cadeirydd pe bydd angen trafod unrhyw ddatblygiad.

iii) Cafwyd buddsoddiad o £150,000 drwy Arfordir Gwyrdd ar gyfer adeiladu toiledau newydd ym Morfa Bychan. Eisoes dechreuwyd ar y gwaith adeiladu a disgwylir agor y toiledau’n swyddogol erbyn 1 Ebrill, 2013.

***Staffio***

i) Nodwyd mai staff tymor y Gaeaf sydd bellach yn gweithio a bod yr adnoddau felly’n prinhau.

***Troseddau***

Nododd aelod bod troseddau, megis lladrata oddi ar gychod, yn cynyddu ac yn amlwg yn ardal Porthmadog. Mae hyn yn achos pryder i'r Heddlu, ac yn sgil hyn bwriedir gweithio o fewn cynllun *'Marine Watch'* , ac ym mis Ionawr bydd ffurflenni'n cael eu hanfon i bob perchennog cwch yn yr ardal yn gofyn iddynt gofrestru eu heiddo gyda'r Heddlu.

***Gorchymyn Baw Cŵn***

i) Nodwyd bod y Cyngor yn ymgynghori ar hyn o bryd i'r posibilrwydd o gael Gorchymyn Cŵn i Wynedd gyfan. Byddai'r Gorchymyn yn golygu newidiadau yn ardal Porthmadog.
Gwnaed cynnig i Draeth Borth y Gest fod yn ardal gwaharddiad cŵn. Yn ogystal, awgrymir newidiadau ym Morfa Bychan er mwyn sicrhau na fydd gwaharddiad yn amharu ar Lwybr yr Arfordir.

ii) Cyfeiriodd aelodau at broblemau sy'n bodoli a nododd y Swyddog fod ymgynghoriad y Cyngor yn rhoi cyfle i'r cyhoedd leisio barn.

iii) Yn sgil cael y toiledau newydd a chael gorchymyn gwahardd cŵn, bwriedir gwneud cais am Faner Las ar Draeth Morfa Bychan erbyn 2013. Ni lwyddwyd i gyrraedd safon Baner Las ar Draeth Morfa Bychan ar unrhyw adeg yn y gorffennol.

***Diogelwch***

Mynegwyd pryder gan aelod oherwydd bod camymddwyn yng nghyffiniau'r Harbwr yn creu peryglon. Nododd bod y ddamwain a ddigwyddodd yn yr haf pan anafwyd bachgen ifanc gyda phropeller cwch wedi deillio o hyn.

**PENDERFYNWYD derbyn adroddiad y Swyddog Morwrol a Pharciau Gwledig a bod sylw pellach yn cael ei roi i'r mater o gamymddwyn a diogelwch yn y cyfarfod nesaf ar 6 Mawrth, 2013.**

## 8. PARCIO CEIR YR ANABL

a) Yn unol â chais aelod, rhoddwyd ystyriaeth i'r mater o barcio ceir yr anabl ar draethau ac ar diroedd yr Adran Forwrol.

b) Nododd yr aelod bod 6% o feysydd parcio'r Cyngor yn cael eu neilltu ar gyfer yr anabl a bod anghysondeb felly gan nad yw hyn yn bodoli ar draethau.
Cyfeiriodd yn benodol at Draeth Morfa Bychan a nododd mai dyma'r unig le yn yr ardal sy'n cynnig cyfle i berson anabl fynd ar draeth hefo'i gar.

c) Pryderai fod Deddf Cydraddoldeb yn cael ei thorri, ac yr oedd am weld pobl anabl, sydd wedi derbyn bathodyn glas i nodi'r anabledd gael mynd ar draeth Morfa Bychan yn ddi-dâl.

ch) Nododd y Cynghorydd Gwyn Davies ei fod yn berchen bathodyn glas, ond er gwybodaeth, nododd bod y bathodynnau bellach yn cynnwys gwybodaeth fanwl er sicrhau na fyddant yn cael eu camddefnyddio.

d) Mewn ymateb dywedodd y Swyddog Morwrol a Pharciau Gwledig mai tâl mynediad yn hytrach na thâl parcio oedd dan sylw, a bod tâl yn cael ei hawlio ar Draeth Morfa Bychan ers blynyddoedd heb wahaniaethu mewn unrhyw fodd.
Ychwanegodd bod sefyllfaoedd yn codi pryd mae'n anodd sicrhau tegwch i bawb, ac awgrymodd y gellid gwneud ymholiadau pellach fel y gellir cyflwyno adroddiad llawn yn y cyfarfod nesaf.

**PENDERFYNWYD gohirio'r mater hyd y cyfarfod nesaf ar 6 Mawrth 2013 fel y gellir cyflwyno adroddiad manwl i gynnwys sylwadau gan Swyddog Cydraddoldeb y Cyngor.**

## 9. CYLCHFAN

Nodwyd, er gwybodaeth, bod arian grant wedi ei gwneud yn bosib i'r Adran brynu bwi i'w osod ar gylchfan tu allan i Borthmadog. Cafwyd y bwi o 'Port of Boston' Swydd Lincoln ac mae hyn yn creu cysylltiad pendant gan mai yn Port of Boston y bu William Alexander Madocks yn Aelod Seneddol.

## 10. AMSER CYCHWYN Y CYFARFOD

Nodwyd fod rhai aelodau heb sylwi fod amser cychwyn y cyfarfod wedi newid o 6pm i 5pm ac y gallasai hyn fod wedi effeithio ar y presenoldeb.

**PENDERFYNWYD cychwyn y cyfarfod nesaf, ar 6 Mawrth, 2013, am 5.30pm**

Dechreuodd y cyfarfod am 6pm a daeth i ben am 7.40pm